# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

## Adroddiad Blynyddol 2025-26

**Cyflwyniad**

Mae gan Gyngor Cymuned Penmynydd a Star wyth aelod a chlerc. Mae'r Cyngor yn derbyn cyllideb flynyddol o £10,000 gan Gyngor Sir Ynys Môn ac mae'r Cyngor yn cyfarfod ar ddydd Mercher cyntaf pob mis (heblaw Awst a Rhagfyr). Mae dyddiadau'r cyfarfodydd i'w gweld ar y calendr ar wefan y Cyngor. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn gyfrifol am gadw nifer o lwybrau cyhoeddus yn glir o isdyfiant.

**Diweddariad Cyllidol**

Mae'r Cyngor wedi cynnal coffrau iach drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Clerc wedi ymgysylltu'n gyson gyda'r cyfrifyddion â'r arolygyddion perthnasol. Mae copïau electroneg o gyllidebau, Datganiadau Blynyddol ac Adroddiadau'r Archwilydd Mewnol 2024/25 i'w gweld ar wefan y Cyngor.

**Ymgysylltu Cymunedol**

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu gyda thrigolion drwy rannu gwybodaeth o ddiddordeb a pherthnasedd lleol ar wefan y Cyngor, tudalen Facebook y Cyngor a drwy gylchlythyru.
Mae Cofnodion, Agenda, ac Adroddiadau Cyllidol wedi eu cynhyrchu a'u cyhoeddi ar wefan Cyngor Cymuned Penmynydd a Star yn unol â'r gofynion.

**Cyflawniad**

**Ceisiadau Cynllunio**

Mae'r Cyngor wedi ymateb i nifer o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y canlynol:-

**Tai Lewis Rogers – Elusendai Penmynydd**



Diolch i waith caled Ymddiriedolaeth Elusendai Penmynydd, mae'r gwaith o droi'r Elusendai yn anheddau i bobl a theuluoedd ifanc yr ardal yn parhau. Mae cais cynllunio llawn wedi ei gyflwyno i adran gynllunio'r Cyngor Sir.

**Safle dros dro i deithwyr**

Cafodd y ddau "gais" yma gryn sylw gan drigolion Star gan eu bod wedi derbyn llythyrau gan adran gynllunio Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ac ymatebwyd i bryderon pawb. Dim ond ceisiadau i ddiwygio amodau'r cais gwreiddiol oedd rhain. Mae'r cais gwreiddiol wedi ei gymeradwyo ond nid oes gan CSYM unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i barhau gyda'r gwaith. Bydd y Cyngor Cymuned yn cadw golwg ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf.

**Tir ger Sarn Fraint Penmynydd** *("Bloom Homestead")*

Yn ychwanegol i fyw ar y tir heb ganiatâd cynllunio mae'r Cyngor Sir wedi darganfod bod perchennog y tir yn rhedeg busnes yma. Mae adran gorfodaeth y Cyngor Sir yn delio gyda'r materion hyn.

**Llwybrau Cyhoeddus Garnedd Goch (llwybr 12) a Pandy Bach (llwybr 11)**

Mae'r ddau lwybr yma wedi eu hailgyfeirio'n ddiweddar er mwyn sicrhau nad yw'r llwybrau yn pasio trwy libart yr anheddau. Perchnogion y tir sydd wedi ysgwyddo'r holl gostau oedd yn ymwneud â hyn. Mae'r Cyngor Cymuned yn parhau gyda'r gwaith o gynnal a chadw holl lwybrau cyhoeddus yr ardal.

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

**Gwaith cynnal a chadw**

Rydym yn gofyn i ROSPA gynnal archwiliad blynyddol o'r offer chwarae yn Star nid oedd unrhyw bryderon ond mae'n edrych yn debyg fydd angen atgyweirio'r siglen bren yn y dyfodol. Cysylltwyd â'r Cyngor Sir er mwyn rhoi gwybod iddynt am ambell achos o dipio anghyfreithlon ac ar ôl cwyno'n ddi-baid am gyflwr y lôn trwy Star da oedd gweld y Cyngor Sir yn ail orchuddio'r lon gyda tharmac.

**Cysgodfan bws Star**

Mae cynlluniau ar y gweill gan Gyngor Sir Ynys Môn i uwchraddio'r safle bws. Os cawn ganiatâd gobeithir ailddefnyddio'r hen gysgodfan bws a'i symud i ganol Star er mwyn creu lloches i'r disgyblion ysgol hynny sy'n dal bws i'r ysgol gynradd ac uwchradd lleol.

COFIWCH: mae'n bosib i unrhyw un rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am dyllau yn y ffordd a thipio anghyfreithlon drwy ddefnyddio'r linc isod:

**Rhowch wybod i'r Cyngor Sir**

- Tyllau yn y ffordd
- Tipio anghyfreithlon
- Goleuadau stryd diffygiol
- Materion priffyrdd, stryd a phalmantau
- Cerbydau wedi'u gadael
- Coelcerthi niwsans

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Cae Chwarae Star**



**Glasbrennau**

Rydym wedi plannu 30 o lasbrennau ychwanegol gan Coed Cadw ac wedi defnyddio'r 6 ddraenen wen a gafwyd i atgyfnerthu'r gwrychoedd sy'n ffinio'r cae chwarae. Mae' amddiffynwyr wedi cael eu gosod o amgylch pob glasbren hen a newydd.



**Bwrdd Cyfathrebu**

Gosodwyd "Bwrdd Cyfathrebu" newydd wrth fynedfa cae chwarae Star sy'n rhan o gynllun "Siarad gyda fi" Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd Plant. Mae lleferydd yn anodd i rai plant ond os yw plentyn yn gallu dangos i wrandäwr yn ogystal â dweud wrtho beth mae'n ceisio'i ddweud, mae'n fwy tebygol o gyfleu ei neges. https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi



# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star





**Canolfan Penmynydd**

Mae’r cydweithio rhyngom â Phwyllgor Gwaith y Ganolfan ym Mhenmynydd yn parhau. Y Cyngor Cymuned sy’n gyfrifol am rent, yswiriant a chyllido gofynion iechyd a diogelwch yr adeilad tra bod Pwyllgor y Ganolfan yn parhau gyda’r gwaith clodwiw o’i redeg. Yn ychwanegol i’r llu o ddigwyddiadau sy’n cael eu trefnu yno mae’r Ganolfan hefyd ar gael i’w logi. Mae mwy o wybodaeth ar galendr y Cyngor Cymuned, ar dudalen Facebook y Ganolfan neu i’w weld ar yr hysbysfwrdd newydd tu allan i’r Ganolfan.



**Biniau Graean**

Oherwydd y gaeafau trymion a gafwyd yn ddiweddar gosodwyd bin graean newydd ar ben allt Bryngof yn Star. Gobeithir gweld bin cyffelyb yn cael ei osod ar yr allt i Gapel Horeb ym Mhenmynydd yn y dyfodol agos.




**Uwchraddio Diffibrilwyr (*Defibrillators*)**

Mae’r ddau diffibriliwr, a ariannwyd gan y Cyngor Cymuned, wedi eu huwchraddio’n ddiweddar. Mae un wedi ei leoli ar wal **y Ganolfan** ym Mhenmynydd a’r llall yn Star ar wal **Ffenestri Peninsula Windows**.

**Grant Balchder Bro (2026/27)**

Mae £750k wedi ei neilltuo i holl gynghorau Cymuned yr Ynys yn ddiweddar ac mi fydd canran o hwn ar gael i ardal Penmynydd a Star. Os oes gennych syniadau am brosiectau sy’n hybu balchder lleol gan roi’r pwyslais ar ddathlu’r Gymraeg a hunaniaeth Môn cysylltwch â’r Cyngor Cymuned (penmynyddcc@gmail.com <mailto:penmynyddcc@gmail.com>)

**Blaenoriaethau 2026-27**

Ar ôl gweld yr hysbysfwrdd tu allan i’r Ganolfan ym Mhenmynydd mae nifer o drigolion Star wedi gofyn am hysbysfwrdd tebyg yn Star. Gobeithir hefyd osod plannwr blodau newydd wrth y Ganolfan ac ambell arwydd treftadaeth / hanes Star wrth y gysgodfan bws. Ein gobaith yw defnyddio arian grant i gyllido hyn.

**Cadeirydd y Cyngor 01/04/26**